Rhagfyr 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad a Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae’r adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru â’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ymdrin â’r cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2019. Fe’i paratowyd ar y cyd yn unol ag adran 6(7) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac wrth ystyried y Canllawiau Adrodd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Wedi’i gynnwys yn y ddogfen hon hefyd yw ein blaengynllun cysylltiedig a baratowyd ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn unol ag adran 6(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Gan fod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ddau endid cyfreithiol ar wahân, ill dau â’u swyddogaethau eu hunain ac ill dau wedi’u cynnwys yn y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, mae’n ofynnol iddynt ill dau lunio Cynllun ac Adroddiad cysylltiedig. Fodd bynnag, gan ein bod yn cydweithio yn yr un sefydliad, at ddibenion cydlyniad a darbodusrwydd, rydym wedi cytuno i gyfuno ein hamcanion mewn cynllun ar y cyd a llunio adroddiad ar y cyd ar ein cynnydd.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ei gynnwys, cysylltwch â ni trwy ddefnyddio’r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych chi wedi’i ddefnyddio. Ni fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | info@audit.wales |

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Rhagair 4

Camau yr ydym wedi'u cymryd i gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth 5

Pwyslais ein gwaith yn y dyfodol ar gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth 11

# Rhagair

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae'n gyson â'n swyddogaethau, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Hwn yw ein hadroddiad cyntaf ar gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau sy'n rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2019.

Ar gyfer y cyfnod 2016-17 hyd 2018-19, fe wnaethom ni gymryd amrywiaeth eang o gamau a wnaeth ein helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cynnal sawl archwiliad ac astudiaeth archwilio a oedd yn cynnwys ystyriaethau ac argymhellion a oedd yn berthnasol i gynnal a gwella bioamrywiaeth;
- cyrraedd ein targed i gyrraedd Lefel 5 (y lefel uchaf) yn Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan arddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli'r amgylchedd yn effeithiol;
- cyflawni dros 25% o ostyngiad i'n hallyriadau nwyon tŷ gwydr a dechrau gwrthbwyso carbon i wneud yn iawn am ein hallyriadau trwy ariannu prosiectau arbed carbon deuocsid mewn mannau eraill; a
- sefydlu grŵp staff o hyrwyddwyr amgylcheddol i hybu'r egwyddor cynaliadwyedd a chodi ymwybyddiaeth o fentrau bioamrywiaeth.

Yn y ddogfen hon rydym ni hefyd wedi cynnwys ein Cynllun cysylltiedig sy'n cynnwys chwe amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn well yn y dyfodol.

Yn y dyfodol, byddwn yn adrodd ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion hyn bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon, a byddwn yn adolygu ein hamcanion ac yn eu diwygio fel y bo'n briodol trwy ein Cynllun Blynyddol a gyhoeddir.



**Isobel Everett**
Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Camau yr ydym wedi'u cymryd i gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth

## Yn ystod y tair blynedd o 2016-17 hyd 2018-19, fe wnaethom ni gymryd amrywiaeth eang o gamau a wnaeth ein helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

1 Mae prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio ac adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus Cymru. Wrth wneud y gwaith hwn, rydym yn ystyried pa mor dda y caiff cyrff cyhoeddus eu rhedeg ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau. Felly, wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, a gwneud argymhellion, gall yr Archwilydd Cyffredinol annog newidiadau buddiol o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

2 Rydym hefyd wedi ymrwymo i sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes, a chyfrannu gymaint â phosibl at gyflawni saith nod llesiant Cymru, gan gynnwys 'Cymru Gydnerth'[1]

3 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn berchen ar unrhyw dir nac yn rheoli unrhyw dir, felly mae llai o gyfle iddi gyflawni gweithgareddau er budd bioamrywiaeth o'i gymharu â sefydliadau sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod yn llawn yr angen i gefnogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan gynnwys trwy wneud y canlynol:

- a lleihau a gwrthbwyso allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- b lleihau'r pellter yr ydym yn ei deithio at ddibenion busnes a dewis opsiynau teithio mwy cynaliadwy;
- c lleihau ein defnydd o bapur a dŵr gymaint â phosibl;
- ch lleihau faint o wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu gymaint â phosibl a chynyddu ein cyfran o wastraff a gaiff ei ailgylchu gymaint â phosibl; a
- d chodi ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth a chynaliadwyedd.

1 Disgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid) er enghraifft, newid yn yr hinsawdd)'.

4 Mae Arddangosyn 1 yn darparu manylion am rai o'r camau allweddol a gymerwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i helpu gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Arddangosyn 1: Camau a gymerwyd o 2016-17 hyd 2018-19 i gyflawni ein dyletswydd i helpu i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau

Yn ystod y cyfnod o 2016-17 hyd 2018-19, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol sawl archwiliad ac astudiaeth a oedd yn cynnwys ystyriaethau ac argymhellion a oedd yn berthnasol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru – yn ystyried i ba raddau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Rheoli Gwastraff yng Nghymru – Atal Gwastraff – yn asesu lefel y flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i atal gwastraff, cynnydd a wnaed tuag at dargedau atal gwastraff ac ansawdd y data sydd ar gael i Lywodraeth Cymru fesur cynnydd
- Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol – yn archwilio a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd da o ran hyrwyddo ailgylchu gwastraff trefol a chasglu gwastraff trefol mewn modd effeithlon ac effeithiol.
- Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd – yn canolbwyntio ar ddarparu seilwaith ar gyfer ailgylchu gwastraff bwyd trwy dreulio anaerobig ac adfer egni o wastraff bwyd.
- Asesiad o sut y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yn darparu sylwadau ynghylch sut y mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i'r Ddeddf yn y flwyddyn gyntaf.
- Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru – yn gwerthuso a yw amcanion allweddol yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn cael eu cyflawni.



Cyhoeddwyd Cod Ymarfer Archwilio diwygiedig ar 1 Mai 2018. Mae'r Cod diwygiedig yn darparu rhagnodi uwch o ran sut y mae'n rhaid i archwilwyr ystyried datblygiad cynaliadwy a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, yn unol â'r diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn 2018-19, cyrhaeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ein targed i gyrraedd Lefel 5 (y lefel uchaf) yn Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan arddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli'r amgylchedd yn effeithiol.

Bwriad y Safon yw darparu'r canlynol i sefydliadau:

- yr elfennau o system rheoli'r amgylchedd effeithiol sy'n briodol i gyd-destun, natur a graddfa eu gweithgareddau a'u gweithrediadau; a
- system i leihau effeithiau amgylcheddol y sefydliad ac amddiffyn yr amgylchedd, gan gynnwys lleihau gymaint â phosibl ddirywiad yr ecosystem, newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, llygredd, defnydd adnoddau y mae pen draw iddynt a rheoli gwastraff.

Yn ystod y cyfnod adrodd o 2016-17 hyd 2018-19, fe wnaethom ni gyflawni gostyngiad o 25% i'n hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Ffactor pwysig a gyfrannodd at y gostyngiad hwn mewn allyriadau oedd gostyngiad o 28% yn ein defnydd o ynni o'r cyflenwad trydan.

Yn 2016-17, fe wnaethom ni hefyd dechrau gwrthbwyso carbon i wneud yn iawn am ein hallyriadau trwy ariannu prosiectau arbed carbon deuocsid mewn mannau eraill. Yn 2018-19, fe wnaethom ni wrthbwyso ein holl allyriadau carbon deuocsid cyfwerth (tCO2e) gan gynnwys y rhai sy'n deillio o deithio at ddiben busnes, trwy gefnogi'r prosiectau canlynol:

- Prosiect lleihau datgoedwigo a chadwraeth bioamrywiaeth Portel-Pará yn Brazil (199 $tCO_2e$)
- Prosiect cynhyrchu pŵer gwynt gan Panama Wind yn Ind (198 $tCO_2e$)
- Plannu 199 o goed llydanddail brodorol yng Nghymru mewn lleoliadau ysgolion a safleoedd bioamrywiaeth eraill

| |
|---|
| Yn ystod tair blynedd y cyfnod adrodd, rydym wedi buddsoddi mewn Skype for Business - system sy'n caniatáu i'n staff gydweithredu a chyfathrebu â'i gilydd a chysylltiadau allanol trwy alwadau ffôn, fideo-gynadledda, rhannu sgrin a negeseuon sydyn, trwy eu gliniaduron ac ni waeth ble maen nhw'n gweithio.<br><br>Mae'r buddsoddiad hwn wedi lleihau yn sylweddol yr angen i gydweithwyr a staff cleientiaid deithio i gyfarfod a chydweithio; yn 2018-19 yn unig fe wnaethom gyflawni gostyngiad o 79,000 o filltiroedd teithio at ddibenion busnes. |
| Ym mis Ebrill 2016, fe wnaethom gyflwyno polisi newydd ar gyfer teithio busnes a threuliau, a'r nod oedd lleihau ein heffaith amgylcheddol a chostau wrth ddiogelu hefyd iechyd a lles eich gweithwyr. Mae'r cwestiynau canlynol yn sail i'r polisi ac yn berthnasol i unrhyw daith a wneir:<br><br>• A oes angen gwneud y daith o gwbl – a fyddai e-bost neu alwad ffôn/fideo-gynhadledd yn ddigon?<br>• A oes modd gwneud y daith ar drafnidiaeth gyhoeddus?<br>• A yw rhannu car â chydweithwyr yn opsiwn?<br><br>Yn ôl y polisi, i fod yn gymwys i dderbyn lwfans teithio, mae'n rhaid i swydd y cyflogai fod yn un symudol[2] ac mae'n rhaid i'w car fodloni'r terfynau allyriadau a ragnodwyd (sy'n destun adolygiad parhaus). |
| Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o'n haelodau staff yn defnyddio gliniaduron sy'n cyfuno fformat maint cyfrifiaduron llechen â gweithrediad dyfeisiau symudol, gan leihau'r angen i argraffu dogfennau cyfarfodydd a'u galluogi i wneud nodiadau ar y sgrin.<br><br>Fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol, yn ystod y cyfnod adrodd, mae hyn wedi ein helpu i gyflawni gostyngiad o dros 40% i'n defnydd o bapur ac rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio cynhyrchion papur wedi'u hailgylchu. |



2 Wedi'i ddiffinio yn y polisi fel swydd:
- lle mae angen sicr i deithio at gyrff a archwilir neu leoliadau eraill at ddibenion gwaith;
- lle nad oes dewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus addas i ddiwallu'r angen busnes; a
- lle mae amledd teithio yn golygu ei bod yn fwy effeithiol i'r unigolyn ddefnyddio'i gar ei hun.

Yn 2018-19, fe wnaethom ailgylchu mwy na thri chwarter o'n gwastraff. Rydym yn defnyddio cyfrifiannell pwyso gwastraff busnes WRAP i ddarparu mesuriadau cywir a chyflawni gostyngiad o 50% i'n holl wastraff rhwng 2015-16 a 2017-18.

Yn 2018-19, fe wnaethom lansio cynllun newydd i'r staff feicio i'r gwaith, prynu cronfa feiciau ar gyfer ein swyddfeydd a buddsoddi mewn cawell feiciau mwy ar gyfer ein swyddfa yng Nghaerdydd, i helpu i barhau i leihau ein heffeithiau amgylcheddol a gwella iechyd a lles ein staff. Fe wnaethom hefyd osod pwyntiau gwefru ceir trydan yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2019.


Yn 2016-17, fe wnaethom ail-leoli ein swyddfa yng ngogledd Cymru i safle llai â gwell perfformiad amgylcheddol. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi cynnal atgyweiriadau ataliol yn ein swyddfa yng Nghaerdydd i wella'i pherfformiad cyffredinol.

Er gwaethaf cynnydd chwyddiant i rent, ardrethi a chostau eraill, mae effeithlonrwydd cyffredinol ein hystad wedi gwella rhywfaint yn nhermau arian parod rhwng 2018-19 (£3,378 i bob aelod cyfwerth ag amser llawn) a 2014-15 (£3,397 i bob aelod cyfwerth ag amser llawn) a hynny o ganlyniad i welliannau yn ein perfformiad amgylcheddol a'n defnydd o le yn ein swyddfeydd.

Er y cynnydd yn nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd yn ein pencadlys yng Nghaerdydd, cyflawnwyd gostyngiad o bron i 25% i'n defnydd o ddŵr yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae ystyriaethau cynaliadwyedd wedi'u sefydlu'n gadarn yn ein harferion caffael erbyn hyn, gan gynnwys trwy wneud y canlynol:


- darparu hyfforddiant ar egwyddorion caffael cynaliadwy i staff caffael;
- cynnal asesiadau risg o ran cynaliadwyedd ar gyfer caffael gwerth uwch ac ystyried costau oes gyfan;
- defnyddio fframweithiau'r llywodraeth sydd ar gael a sicrhau bod y cyflenwyr yr ydym yn eu defnyddio yn dilyn arferion cynaliadwy; a
- defnyddio Safonau Prynu fel canllaw ar gyfer glanhau, gosod a phrynu offer.



Rydym wedi sefydlu grŵp staff o hyrwyddwyr amgylcheddol i hyrwyddo'r egwyddor cynaliadwyedd a chodi ymwybyddiaeth o amryw o fentrau staff, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Roedd enghreifftiau amlwg yn cynnwys:

- Ymuno â phedwar cynllun i ailgylchu gwastraff sy'n nodweddiadol anodd ei ailgylchu:
    - Rhaglen Ailgylchu Pladis Biscuits and Snacks
    - Rhaglen Ailgylchu Gofal y Geg Colgate®
    - Cynllun Ailgylchu Pacedi Creision
    - Rhaglen Ailgylchu Offer Ysgrifennu
- Cymryd rhan yn rhaglen glanhau traethau Cadwch Gymru'n Daclus ym mis Medi 2018, pan gymerodd cydweithwyr ran mewn digwyddiadau ar dri o draethau ledled Cymru.
- Cynnal grŵp cyfryngau cymdeithasol mewnol gweithredol a chynnal gweithdai 'cinio a dysgu' lle rhennir syniadau i leihau eich effaith ar yr amgylchedd.



# Pwyslais ein gwaith yn y dyfodol ar gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth


## Mae gennym chwe amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn well yn y dyfodol

5 Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r camau allweddol y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo iddynt dros y blynyddoedd sydd i'w dod i helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson â'n swyddogaethau.

6 Ochr yn ochr â'n datganiad cyffredinol o ymrwymiad (a amlinellwyd ym mharagraffau 1 i 3 o'r ddogfen hon), mae ein Cynllun yn cynnwys chwe amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

7 Mae ein hamcanion wedi'u paratoi gan ystyried amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, sydd wedi'u nodi i gyfrannu at wyrdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru.

8 Byddwn yn adrodd ar gynnydd a wnaed o ran cyflawni'n hamcanion bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon, a byddwn yn adolygu ac yn diwygio ein hamcanion fel y bo'n briodol trwy baratoi'n flynyddol ein Cynllun Blynyddol a gyhoeddir.



### Arddangosyn 2: Ein hamcanion yn y dyfodol ar gyfer helpu i sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r ddyletswydd i helpu i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau

| |
|---|
| Byddwn yn ystyried Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, ac yn ymgysylltu â phobl a sefydliadau â diddordeb mewn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru wrth ystyried:<br>• pa raglenni archwilio ac astudio gwerth am arian y byddwn yn eu defnyddio; a<br>• pha ddull i'w ddefnyddio mewn archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian ag iddynt brif pwyslais sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. |
| Byddwn yn:<br>• cynnwys yn y diwygiad nesaf o God Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol a'r canllawiau cysylltiedig, ragnodiad ynglŷn â sut y dylai archwilwyr gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau; a<br>• diweddaru ein templed dogfen 'cychwyn prosiect' archwilio i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i dimau archwilio ac astudio gwerth am arian nodi pryd y gallai archwiliad penodol gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'r Ddyletswydd. |
| Wrth gynnal archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddwn yn ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn iddynt allu cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru gydnerth'. |

| |
|---|
| Byddwn yn ymestyn cwmpas ein trefniadau ar gyfer asesu effaith debygol polisïau ac arferion Swyddfa Archwilio Cymru (diwygiedig neu newydd) i gynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, pan fo hynny'n briodol. Mae prosiectau perthnasol sydd ar ddod yn cynnwys:<br>• gweithredu trefniadau gweithio doethach a mwy hyblyg;<br>• ein strategaeth ar gyfer ad-drefnu ystadau; ac<br>• argymhellion adolygiad archwiliad allanol o'n cynllun teithio. |
| Wrth gaffael gwasanaethau, byddwn yn:<br>• cynnwys gofynion sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn ein meini prawf dyfarnu tendrau; ac yn<br>• cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau wrth bennu'r safonau perfformiad i'w cynnwys yn y contract. |
| Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ein grŵp staff hyrwyddwyr amgylcheddol i godi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o ran sut y gall pob swyddogaeth effeithio a dylanwadu ar fioamrywiaeth. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru